# Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol

## Cymwysterau Cymru

**Pecyn Ymgeisydd**
Dyddiad Cau: 22 Mawrth am hanner nos
Cyfweliadau: 16 Ebrill



# Gwybodaeth Allweddol

**Lleoliad**
Casnewydd gyda dull hybrid.

Gyda gwaith llawn amser, mae hyn fel arfer yn golygu 40% o'r wythnos waith yn y swyddfa.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd angen i'r Cyfarwyddwr Gweithredol newydd weithio o'r swyddfa yn fwy rheolaidd ar ddechrau'r penodiad i feithrin perthnasoedd gwaith a gwybodaeth.

**Contract**
Parhaol, llawn amser (37 awr yr wythnos)

Gellir trafod ceisiadau am batrymau gwaith eraill, gan gynnwys rhan-amser, rhannu swydd a secondiadau, yn y cyfweliad

**Cyflog a Buddion:**
£92,000 - £101,000 y flwyddyn.

Aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, y mae'r cyflogwr yn cyfrannu 28.97% ato ar hyn o bryd. 31 diwrnod o wyliau blynyddol a buddion cystadleuol eraill.

Gellid ystyried cymorth adleoli

**Adrodd i:**
Prif Weithredwr



# Croeso
# Neges gan y Prif Weithredwr

Diolch am eich diddordeb yn y swydd Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol yn Cymwysterau Cymru. Rydyn ni wrth ein bodd eich bod yn ystyried ymuno â'n tîm a chyfrannu at ein cenhadaeth o sicrhau bod cymwysterau yng Nghymru yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn cynnal hyder y cyhoedd.

Fel y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau yng Nghymru, mae Cymwysterau Cymru yn chwarae rhan allweddol yn y sector addysg. Mae ein gwaith yn cynnwys rheoleiddio cyrff dyfarnu, goruchwylio'r system gymwysterau, a gweithredu diwygiadau i sicrhau bod cymwysterau'n parhau i fod yn berthnasol ac yn werthfawr. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol ar flaen y gad yn yr ymdrechion hyn, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol i'r gyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol ac fe fyddant yn aelod gweithgar o'r tîm gweithredol gan gyfrannu at arweinyddiaeth ar draws y sefydliad cyfan.

Bydd deiliad y swydd hon yn gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn derbyn gwasanaeth rhagorol gan dimau Adnoddau Corfforaethol sy'n hanfodol i ddarparu'r sylfeini cadarn sy'n angenrheidiol ar gyfer ein gwaith rheoleiddio a pholisi.

Yn Cymwysterau Cymru, rydyn ni'n gwerthfawrogi hyblygrwydd a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae ein cyflogeion yn gweithio ar sail hybrid, gyda chydbwysedd rhwng gweithio gartref ac yn y swyddfa. Rydyn ni'n cynnig cyflog cystadleuol, gwyliau blynyddol hael, ac aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at dderbyn ceisiadau gan weithwyr proffesiynol ymroddedig sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddysgwyr yng Nghymru. Os ydych chi'n angerddol am addysg ac yn meddu ar y sgiliau a'r profiad rydyn ni'n chwilio amdanynt, rydyn ni'n eich annog i wneud cais.

Diolch unwaith eto am eich diddordeb yn y rôl bwysig hon. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais a dysgu rhagor am sut y gallwch chi gyfrannu at lwyddiant Cymwysterau Cymru.



# Cefndir



**Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod cymwysterau a'r system gymwysterau'n effeithiol wrth ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, ac am hybu hyder y cyhoedd yn y rhain.**

Mae gan Cymwysterau Cymru Gadeirydd a Bwrdd a benodwyd yn gyhoeddus sy'n atebol am gyflawni swyddogaethau statudol Cymwysterau Cymru a'i rhwymedigaethau i Lywodraeth Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cytuno ar gyfeiriad strategol a llywodraethiant y sefydliad ac mae'r tîm Gweithredol (sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, tri Chyfarwyddwr Gweithredol, a dau Gyfarwyddwr) yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau strategol a gweithredol.

**Mae Cymwysterau Cymru wedi'i drefnu'n bump cyfarwyddiaeth, sy'n cynnwys:**

- Polisi a Diwygio Cymwysterau – dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi a Diwygio Cymwysterau
- Rheoleiddio – dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio
- Adnoddau Corfforaethol – dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol
- Cyfathrebu a Chysylltiadau â Rhanddeiliaid – dan arweiniad Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau â Rhanddeiliaid
- Dadansoddi a Dealltwriaeth – dan arweiniad y Cyfarwyddwr Dadansoddi a Dealltwriaeth

Mae gan Gyfarwyddwyr Gweithredol gyfrifoldeb ar y cyd am arweinyddiaeth effeithiol Cymwysterau Cymru, am ddiffinio cyfeiriad a blaenoriaethau strategol, rheoli mecanweithiau rheoli a sicrhau stiwardiaeth gyffredinol a rheoli perfformiad y sefydliad.

Byddan nhw'n cynghori aelodau'r Bwrdd ar ddatblygiad strategol ac felly bydd gofyn iddyn nhw ddeall a rhagweld datblygiadau yn yr amgylchedd gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a thechnegol y mae'n gweithredu ynddo. Bydd gofyn iddyn nhw hefyd feithrin diwylliant o welliant parhaus a bydd disgwyl iddyn nhw weithredu fel esiamplau i weddill y sefydliad.

Dilynwch y ddolen hon i ddarllen ein hadroddiad blynyddol diweddaraf.

© Acorn by Synergie

# Gweithio i Cymwysterau Cymru

Rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi a datblygu ein gweithwyr o'r diwrnod cyntaf. Yn ogystal â chyflogau cystadleuol, rydyn ni'n cynnig 31 diwrnod o wyliau blynyddol, trefniadau gweithio hyblyg ac aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Rydyn ni'n cyflogi ac yn gwobrwyo'r dalent orau, waeth beth fo'u rhywedd, hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu oedran. A dyna sut rydyn ni'n chwilio am dalent y dyfodol hefyd, gan recriwtio o'r gronfa ehangaf sydd ar gael.

Mae ein dull o recriwtio a dewis yn deg, yn agored ac yn seiliedig yn gyfan gwbl ar deilyngdod, ac rydyn ni'n cydymffurfio â'r dyletswyddau cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Further Benefits include:**

- Rydyn ni'n cynnig gweithio hybrid i'n holl weithwyr, gan ganiatáu iddyn nhw gydbwyso eu hwythnos waith rhwng y cartref a'r swyddfa.
- Mae ein gweithwyr llawn amser yn derbyn 31 diwrnod o wyliau blynyddol, wyth gŵyl banc a hyd at dri diwrnod ychwanegol ar gyfer cau rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
- Mae gan weithwyr hawl i ddod yn aelod o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.
- Rydyn ni'n ceisio cefnogi ein gweithwyr drwy gynnig absenoldeb a chyflog mamolaeth, tadolaeth, rhannu absenoldeb rhiant a mabwysiadu hael.

Er mwyn cefnogi pob agwedd ar les, mae ein gweithwyr yn gallu manteisio ar y canlynol:

- Rhaglen cymorth i weithwyr - sy'n cynnig gwasanaethau fel cefnogaeth emosiynol, cwnsela a mynediad at gynghorwyr arbenigol
- Darpariaeth gofal llygaid - sy'n caniatáu i weithwyr gael prawf llygaid am ddim ynghyd â dewis cyfyngedig o fframiau
- Iechyd galwedigaethol - sy'n rhoi cyngor ar faterion cyn lleoli/ffitrwydd ar gyfer gweithio, cymorth dychwelyd i'r gwaith, neu gyngor pan fo gan weithwyr bryderon iechyd eraill.

- Mae ein gweithwyr yn gymwys i ymuno â CSSC - sefydliad aelodaeth ar gyfer gweision sifil a gweithwyr yn y sector cyhoeddus - sy'n darparu ystod enfawr o gyfleoedd chwaraeon, hamdden, iechyd a manwerthu i'w aelodau.
- Er mwyn dangos ein hymrwymiad i statws proffesiynol ein gweithwyr, rydyn ni'n talu eu tanysgrifiadau proffesiynol os ydyn nhw'n berthnasol i'w rôl.

Dilynwch y ddolen hon i ddysgu mwy am weithio i Cymwysterau Cymru




© Acorn by Synergie

# Pwrpas y Swydd



**Gan adrodd i'r Prif Weithredwr ac fel aelod o'r tîm Gweithredol, bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol – Adnoddau Corfforaethol yn cynnig arweiniad strategol i'r gyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol ac fe fyddant yn aelod gweithredol o'r tîm gweithredol gan gyfrannu at arweinyddiaeth ar draws y sefydliad cyfan.**

Bydd deiliad y swydd hon yn bersonol gyfrifol i'r Prif Weithredwr am oruchwylio stiwardiaeth ariannol Cymwysterau Cymru, rheoli ei adnoddau a'i asedau dynol ac ariannol, cyflawni ei rwymedigaethau statudol a rheoleiddiol, a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol arall. Rhaid iddynt sicrhau bod safonau uchel o lywodraethiant corfforaethol ar waith, o fewn y gyfarwyddiaeth ac ar draws pob maes o'r sefydliad.

Bydd deiliad y swydd hon hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn derbyn gwasanaeth rhagorol gan dimau Adnoddau Corfforaethol i gefnogi ein gwaith rheoleiddio a pholisi mewn modd amserol a chost-effeithiol.

Bydd y gyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol yn cynnwys chwe swyddogaeth gan gynnwys:

- Cyllid
- Caffael
- Adnoddau Dynol
- TG
- Llywodraethiant Corfforaethol
- Cyfleusterau

Yn ogystal â gweithredu fel cydwybod gorfforaethol y sefydliad, bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol yn arwain ar gynllunio busnes ar gyfer y sefydliad, cynnal dogfennau strategaeth, cynllunio adnoddau hirdymor ac adrodd ar ran y sefydliad. Bydd deiliad y swydd yn cefnogi'r Prif Weithredwr trwy gyflawni swyddogaethau dirprwyedig yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth neu'r SIRO ar gyfer y sefydliad.

Disgwylir i'r Cyfarwyddwr Gweithredol ymgyfarwyddo'n gyson â newidiadau deddfwriaethol ac arferion gorau mewn swyddogaethau proffesiynol, gan ddatblygu rhwydweithiau effeithiol a chyfrannu at gymunedau ymarfer cydweithredol dan arweiniad Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus er mwyn nodi ffyrdd gwell o weithio yn barhaus, gan gynnwys cyfleoedd i gydweithio'n uniongyrchol â chyrff cyhoeddus eraill wrth gyflawni swyddogaethau corfforaethol.

# Prif Ddyletswyddau

Arwain, rheoli a bod yn atebol am y gyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol gan gynnwys ei nodau strategol, ei hamcanion a'i pherfformiad. Meithrin diwylliant o welliant parhaus o fewn y gyfarwyddiaeth, sy’n gyson â gwerthoedd Cymwysterau Cymru a sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r hyn y byddan nhw’n ei gyfrannu'n bersonol at lwyddiant y sefydliad ac yn cael cyfleoedd datblygu.

Sicrhau bod swyddogaethau gweithredol, busnes a llywodraethiant corfforaethol Cymwysterau Cymru yn perfformio yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon i gyflawni nodau ac amcanion y sefydliad.

Sicrhau bod gan Cymwysterau Cymru fecanweithiau effeithiol i sefydlu a chynnal y galluoedd sylfaenol sydd eu hangen i gyflawni ei gylch gorchwyl.

Gweithio gyda Chyfarwyddwyr eraill i ddatblygu'r cynlluniau gweithredol a busnes blynyddol a chynnal dogfennau strategol sy'n sail i'r cynlluniau hyn.

Goruchwylio cwblhau camau rheoli mewn ymateb i ganfyddiadau archwilio.

Bod yn gyfrifol am sicrhau bod penderfyniadau'r sefydliad yn gadarn ac yn lliniaru risgiau her. Sicrhau dealltwriaeth dda o ddeddfwriaeth Cymwysterau Cymru a gwybodaeth gyfredol o ddeddfwriaeth berthnasol Cymru, y DU ac Ewrop a sicrhau cydymffurfiaeth sefydliadol. Gweithredu fel pwynt canolog ar gyfer comisiynu cyngor cyfreithiol a chysylltu rhwng Cymwysterau Cymru a'i gynghorwyr cyfreithiol.

Cynnig arweiniad a chefnogaeth i benaethiaid timau Adnoddau Corfforaethol, a fydd yn adrodd yn uniongyrchol iddynt, gan gynnwys gosod eu hamcanion personol ac ymgymryd â monitro a rheoli perfformiad.

Sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n briodol, bod cofnodion ariannol yn cael eu cadw'n gywir, bod uniondeb yn cael ei gynnal a bod unrhyw wariant o gronfeydd yn rhoi gwerth am arian.

Bod yn gyfrifol am reoli ariannol effeithiol a rhagfynegi a chynhyrchu'r cyfrifon archwiliedig blynyddol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol cyllid cyhoeddus ac arferion gorau proffesiynol.

Gweithredu fel swyddog awdurdodi mewn perthynas ag ystod o bolisïau AD ar draws y sefydliad.

Bod yn gyfrifol am y berthynas arweiniol ag uned Nawdd Llywodraeth Cymru – ac am gytuno ar y llythyr cylch gwaith blynyddol, negodi unrhyw newidiadau i'r ddogfen Fframwaith, a threfniadau ariannol ac am gydymffurfio – gan roi sicrwydd i'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu.

Bod yn gyfrifol am systemau effeithiol o reoli mewnol, rheoli risg a pherfformiad, gan gynnwys y swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol ar ran y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu.

Gweithio gyda'r Cyfarwyddwyr eraill i sicrhau adrodd effeithiol, dyrannu adnoddau (tymor byr a hirdymor) a monitro perfformiad sefydliadol.

Bod yn gyfrifol am sicrhau bod cytundebau masnachol Cymwysterau Cymru yn cydymffurfio ac yn darparu gwerth am arian – gan gynnwys paratoi a chynnal dogfennau cytundebol, cyflawni rhwymedigaethau cytundebol a rheoli cyflenwyr allanol.

Bod yn atebol am yr holl gyllidebau Adnoddau Corfforaethol a rheoli'r rheini ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol ac yswiriant ar ran y sefydliad.

Bod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu cynlluniau parhad busnes ar gyfer y sefydliad.

Gweithredu fel Cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer Pwyllgorau/Byrddau yn ôl yr angen a chadeirio pwyllgorau ac is-bwyllgorau fel y bo'n briodol.

Sicrhau bod polisïau corfforaethol Cymwysterau Cymru yn gadarn ac yn gyfredol i sicrhau cydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau statudol fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac fel cyflogwr da.

Cynghori'r Prif Weithredwr ar faterion sy'n ymwneud â gwytnwch seiber a rheoli data i gefnogi rôl y Prif Weithredwr fel SIRO.

Gweithio'n hyblyg, gan gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl y gofyn, pan fo hynny'n berthnasol i'r swydd ac yn briodol i'r radd.

© Acorn by Synergie

# Manyleb y Person

Dylai ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o brofiad yn eu datganiad ysgrifenedig a'u cais yn ogystal â sut maen nhw wedi defnyddio eu gwybodaeth ac arddangos eu sgiliau yn eu rolau presennol neu flaenorol.

## Cymwysterau

**Hanfodol**

Cymhwyster proffesiynol mewn o leiaf un arbenigedd corfforaethol (AD, TGCh, Cyllid (â chymhwyster gan CCAB), Llywodraethiant Corfforaethol, Cyfleusterau neu Gaffael).

## Profiad

**Hanfodol**

Profiad helaeth o weithio mewn rôl arweinyddiaeth strategol, sy'n gallu dangos hanes blaenorol mewn:

- Rheoli swyddogaethau(au) corfforaethol er mwyn sicrhau bod y sefydliad y gweithredu'n ddidrafferth.
- Ysgogi a gwella perfformiad a datblygiad staff
- Cynllunio busnes a rheoli adnoddau
- Cefnogi penderfyniadau sefydliadol trwy strwythurau llywodraethu cadarn
- Arwain newid mewn systemau neu brosesau
- Datblygu rheolaethau ac olrhain perfformiad i wella cyflawni a rheoli risg
- Rheoli masnachol a rheoli cyflenwyr

**Dymunol**

- Profiad o weithio ar lefel weithredol mewn sefydliad bach
- Profiad o reoli prosiectau
- Gweithredu fel uwch swyddog cyfrifol mewn rhaglenni trawsnewid
- Cefnogi gwaith bwrdd anweithredol a'i bwyllgorau
- Arwain yr ymateb i ganfyddiadau archwilio

## Gwybodaeth

**Hanfodol**

Gwybodaeth drylwyr, a chymhwyso gofynion llywodraethu ac arfer gorau.

Gwybodaeth dda am yr holl ddeddfwriaeth (Cymru a'r DU yn ehangach) a rheoliadau y mae cyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig iddynt, neu brofiad cryf o weithio o fewn fframweithiau statudol a chydymffurfio tebyg mewn sectorau cysylltiedig.

Er y bydd gan bob swyddogaeth arweinyddiaeth, disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gael trosolwg a/neu feithrin dealltwriaeth o Adnoddau Dynol a Chaffael, cyfraith Iechyd a Diogelwch, Seiberddiogelwch, Cydraddoldeb ac arfer Cyfrifyddu a bod yn gyfforddus yn arwain ar feysydd a allai fod y tu allan i'w proffesiwn.

Gwybodaeth dda o bolisïau ariannol y llywodraeth, gan gynnwys 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' neu egwyddorion cyfatebol a ddefnyddir mewn sefydliadau rheoleiddiedig neu sy'n atebol yn gyhoeddus.

**Dymunol**

Gwybodaeth am ofynion adrodd a llywodraethu statudol y sector cyhoeddus ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

## Sgiliau

**Hanfodol**

Sgiliau arweinyddiaeth, rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol a'r gallu i gynrychioli'r sefydliad gyda chyrff cyhoeddus eraill, gan feithrin perthnasoedd sy'n arwain at gydweithrediad sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Y gallu i ysbrydoli ac ysgogi gweithwyr proffesiynol trwy gyfnod o newid ac arloesi, wrth feithrin dulliau cyson ac atebol o weithio.

Y gallu i reoli adnoddau mewnol ac allanol yn effeithiol, gan ddangos sgiliau cynllunio busnes a rhagfynegi effeithiol.

Lefel uchel o sgiliau masnachol – yn gallu datblygu a gweithredu strategaethau ar gyfer ystod o wasanaethau mewnol a chaffael sy'n rhoi cymorth rhagorol i gwsmeriaid ac yn sicrhau gwerth am arian.

Cyfforddus wrth herio a chraffu ar gynigion ar bob lefel.

Yn gallu gweithredu fel model rôl wrth feithrin diwylliant cynhwysol.

**Dymunol**

Y gallu i weithio'n ddwyieithog (Saesneg a Chymraeg). Cymorth ar gael i wella unrhyw sgiliau cyfredol neu i gefnogi dysgu ieithoedd.

© Acorn by Synergie

# Proses Cais



Mae Cymwysterau Cymru wedi cyflogi Acorn by Synergie i gefnogi a rheoli'r cylch recriwtio hon

I ddysgu rhagor, cysylltwch â

**Luke Robért**

luke.robert@acornbysynergie.com

07551 353 260

## Hysbysiad Preifatrwydd

Drwy gyflwyno eich cais, rydych yn cytuno y caiff Acorn by Synergie brosesu eich data personol at ddibenion recriwtio. Rydym wedi ymrwymo i gydnabod pob cais ac rydym yn edrych ymlaen at ystyried eich cais chi.

Diolch am ddangos diddordeb mewn cyfrannu tuag at lwyddiant Cymwysterau Cymru.

## Os hoffech wneud cais, cyflwynwch y canlynol i'w hystyried cyn y dyddiad cau ar 22 Mawrth am hanner nos:

- CV wedi'i ddiweddaru
- Datganiad ategol (uchafswm o 2,000 o eiriau) yn manylu ar eich cymhelliant dros wneud cais a'ch addasrwydd o ran manyleb y person sydd dan sylw.
- Cwblhewch y Ffurflen Fonitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ddienw hon

Rhaid anfon pob cais drwy e-bost at luke.robert@acornbysynergie.com

**Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau ar 16 Ebrill yng Nghasnewydd**

Os oes gennych unrhyw broblemau gyda'r dyddiadau hyn neu os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol pellach arnoch fel rhan o'r broses, yna cysylltwch â Luke Robért.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

© Acorn by Synergie